**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 20 Hydref 2021 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| G J Tanner | C A Holley | P R Hood-Williams |
| J W Jones | E T Kirchner | H M Morris |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
Tony Beddow

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Mark Child | Aelod y Cabinet – Gwasanaethau Gofal i Oedolion ac Iechyd Cymunedol |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Deborah Reed | Prif Swyddog Adnoddau |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): Y V Jardine

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Datganodd Chris Holley gysylltiad personol.

## 2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y panel fod nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

O ran materion sy'n codi, cododd y Panel ymholiad a nodwyd eu bod yn deall o'r datganiad ar dudalen 22 o'r pecyn agenda fod symud i fath o gyllidebu ar sail canlyniadau yn cael ei atal. Cadarnhaodd y Cynullydd fod hyn yn gywir.

## 4 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Rhaglen Cefnogi'r Gweithlu - Cymorth ar gyfer Staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- Roedd Deborah Reed, Prif Swyddog Adnoddau, yn bresennol i roi cyflwyniad i'r Panel am y rhaglen gefnogaeth sydd ar waith ar gyfer staff y Gwasanaethau i Oedolion, recriwtio a'r camau nesaf.

  Pwyntiau i'w trafod:
- Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn sylweddoli bod problem o ran salwch a nhw oedd y cyntaf i dreialu Swyddog Adnoddau Dynol pwrpasol. Mae'r Gyfarwyddiaeth Lleoedd a'r Adran Addysg wedi symud i fodel tebyg ac maent yn treialu Swyddog Adnoddau Dynol pwrpasol yn yr ardal.
- Roedd y panel yn pryderu bod y sector preifat yn dioddef problem debyg gyda staffio a holodd a yw'r Awdurdod wedi rhannu ei arferion â nhw. Fe'u hysbyswyd nad oes ymgyrch recriwtio a rennir ond pan fydd yr Awdurdod yn recriwtio staff mae'n sicrhau na chymerir staff o gartrefi preifat.
- Mae llawer o waith wedi digwydd o amgylch y gweithlu, mae llawer i'w wneud o hyd ond mae gan y Gyfarwyddiaeth gynllun.

## 6 Y diweddaraf am Reolaeth Pandemig COVID-19

Roedd Mark Child, Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol i Oedolion a David Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn bresennol i friffio'r Panel ar y sefyllfa bresennol.

Pwyntiau i'w trafod:
- Mae'r Gyfarwyddiaeth yn dal i ymdopi ond mae'n parhau i fod yn frwydr. Rydyn ni yn y drydedd don sy'n cael effaith sylweddol iawn. Breuder Gofal Cartref sydd wedi taro'r Gyfarwyddiaeth waethaf, yn enwedig y gweithlu.
- Y rhestr aros ar gyfer gofal cartref tymor hir oedd 200 o unigolion, mae hyn bellach i lawr i 100/110 o unigolion. Nid oedd gan bob unigolyn ofal na'r gofal iawn chwaith. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio'n galed gyda theuluoedd/gofalwyr i gynnig dewisiadau amgen tan fis Chwefror y flwyddyn nesaf. Mae nifer o unigolion (llai na 10 bellach) yn gorfod ystyried gofal preswyl gan nad yw'r Awdurdod yn gallu darparu'r gofal cartref sydd ei angen arnynt.
- Her arall i'r Gyfarwyddiaeth yw blaenoriaethu asesiadau ac adolygiadau. Mae ôl-groniad o waith adolygu cynlluniedig o hyd. Mae trafodaethau'n digwydd ag asiantaeth annibynnol i gael llawer o waith gan gynnwys yr holl adolygiadau ac asesiadau sy'n weddill. Yn y cyfamser, mae pawb yn parhau i dderbyn diweddariadau rheolaidd.
- Cred y Cyfarwyddwr fod trefniadau'r Awdurdod yn ddigon da i gyflawni'i gyfrifoldebau diogelu.

- Mae llawer o straen a phwysau er gwaethaf y gwaith a wneir ar gefnogi'r gweithlu.
- Holodd y panel pa berthynas y mae'r Awdurdod am ei chael â'r sector preifat ynghylch yr hyn y gellid fod wedi ei ragweld a'r anrhagweledig a manteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau. Clywyd bod angen newid sylfaenol ar elfennau o'r farchnad gofal cartref a phreswyl er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas at y diben.

## 7 Monitro Perfformiad

Rhoddodd Mark Child a David Howes ddiweddariad byr ar y materion cyfredol mewn perthynas â Monitro Perfformiad o dan yr eitem flaenorol.

Pwyntiau i'w trafod:

- Holodd y panel ynghylch dwy agwedd mewn perthynas â'r Pwynt Mynediad Cyffredin. Yn gyntaf, a yw nifer yr 'atgyfeiriadau coll' yn hysbys a'u ffynhonnell e.e. meddygon teulu, perthnasau neu eraill. Yn ail, a yw'r broses atgyfeirio yn dal y data cywir i hysbysu'r tîm Pwynt Mynediad Cyffredin am frys yr atgyfeiriad a'r prognosis tebygol.
- Holodd y panel mewn perthynas â Thaliadau Uniongyrchol, sut mae'r trefniadau adolygu proffesiynol yn cysylltu â'r systemau talu i sicrhau bod trefniadau cyllido amserol ar waith. Fe'u hysbyswyd bod cyfarfodydd panel y Gyfarwyddiaeth yn cael eu cynnal dair gwaith yr wythnos a gwneir pob cysylltiad drwy'r cyfarfod hwn.
- Holodd y panel pwy sy'n gyfrifol am bennu'r côd ymarfer ar gyfer asesiadau DoLS, beth sy'n achosi'r oedi cyn cytuno arno a sut y gallai unrhyw rwystrau gael eu dileu. Fe'u hysbyswyd bod hyn yn cael ei arwain gan y DU ac nid yw'r newidiadau a gaiff eu gwneud mor arwyddocaol nes bod oedi'n peri pryder.
- Mae'r Panel o'r farn bod Llywodraeth Cymru yn eithaf awyddus i weld nifer y taliadau uniongyrchol yn cynyddu. Mae taliadau uniongyrchol yn rhoi dewis i unigolion yn y ffordd y cânt eu cynorthwyo. Nid yw'n disodli darpariaeth gwasanaeth uniongyrchol os mai dyna'r gwasanaeth gorau i'r unigolyn.

## 8 Er gwybodaeth

Nodwyd y rhaglen waith ddiwygiedig.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.55 pm